# Cynllun Ieithoedd Swyddogol - Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

7 Awst 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn,

1. *A fyddai modd ichi ddarparu copïau o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'r asesiad effaith cydraddoldeb yn Saesneg.*

Mae ymateb i'ch cwestiynau isod.

Mae Cynllun Ieithoedd Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gael ar wefan y Cynulliad. Mae'r Cynllun yn ymdrin â darparu gwasanaethau dwyieithog yn ein hieithoedd swyddogol, sef y Gymraeg a'r Saesneg, a'n rhwymedigaethau o ran Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi Cynllun newydd ar gyfer pob tymor Cynulliad.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd copi o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EQIA) mewn perthynas â Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad ar dudalennau Amrywiaeth a Chynhwysiant Comisiwn y Cynulliad. Roedd paratoi EQIA yn rhan annatod o waith cynllunio a datblygu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd. Mae'r ddogfen yn nodi nifer o risgiau a chamau lliniaru a nodwyd, i sicrhau nad yw'r themâu ar gyfer gwelliant yn y Cynllun yn cael effaith andwyol ar y gymuned ehangach. Fe'i dilyswyd yn annibynnol gan sefydliad cydraddoldebau allanol.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@Assembly.Wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

gwefan ynwww.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx

Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF